we'll keep a

welcome...

Refugees & Asylum Seekers

MANIFESTO

2007

cyflwyniad

Paratowyd y maniffesto hwn gan gynghrair o gyrff, grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd ar draws Cymru sy'n credu bod tymor nesaf y Cynulliad yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i wella bywyd ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru ac i gryfhau'r berthynas rhwng ffoaduriaid a'r cymunedau sy'n eu derbyn.

Galwn ar ymgeiswyr y Cynulliad i addo'u cefnogaeth i'r egwyddorion allweddol a'r gweithredu sydd wedi eu nodi isod.

pwy sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches?

Ceiswyr lloches: *pobl sy'n ffoi rhag erledigaeth yn eu mamwlad, sydd wedi cyrraedd yn y DU, wedi cyflwyno eu hunain i'r awdurdodau ac wedi arfer eu hawl cyfreithiol i wneud cais am loches.*

Ffoaduriaid: *pobl y mae'r llywodraeth yn cydnabod bod angen eu diogelu yn y DU oherwydd petaent yn dychwelyd i'w mamwlad gallent fod mewn perygl o gael eu herlid oherwydd eu hil, crefydd, cenedl, aelodaeth o gr_p cymdeithasol, neu farn wleidyddol neilltuol.*

ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng nghymru

Mae llai na 2,500 o bobl yn ceisio lloches yng Nghymru – mae hynny'n llai na 0.1% o'r holl boblogaeth – a thua 10,000 o ffoaduriaid. Mae'r rhan fwyaf o'r ceiswyr lloches a'r ffoaduriaid yn byw yng Nghaerdydd, Abertawe a Chasnewydd gyda nifer bychan yn byw yn Wrecsam a dyrnaid o bobl mewn ardaloedd eraill.

Petai'r holl ffoaduriaid a'r ceiswyr lloches yng Nghymru yn eistedd yn Stadiwm y Mileniwm, byddent ond yn llenwi'r 16 rhes flaen.

ailadeiladu bywyd mewn gwlad newydd

Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches wedi cael eu gorfodi i ffoi o'u cartrefi a gwynebant her anodd wrth ailadeiladu eu bywyd mewn gwlad newydd. Mae'r rhelyw o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cyrraedd gyda braidd ddim o ran cysylltiadau teuluol ac maent yn anghyfarwydd â'r cyfundrefnau a'r sefydliadau. Mae'n bosibl fod ganddynt gymwysterau, sgiliau a phrofiad gwaith nad ydynt yn cael eu cydnabod yma a'u bod yn wynebu anffafriaeth.

byw mewn tlodi

Mae dros 95% o'r bobl sy'n ceisio lloches yng Nghymru yn derbyn llety a chynhaliaeth gan Wasanaethau Cymorth Lloches Cenedlaethol a heb hyn byddent yn hollol anghenus[1]. Ni chaniateir i geiswyr lloches weithio yn ystod 12 mis cyntaf eu cais. Gorfodir iddynt fod yn ddibynnol ar gymorth y wlad, sydd wedi ei bennu 30% yn is na'r cymhorthdal incwm arferol. Mae llawer yn byw mewn tlodi ac yn dioddef gwaeledd iechyd a newyn[2].

Daw ceiswyr lloches i'r DU i geisio amddiffynfa rhag rhyfel ac erledigaeth. Ni ddônt i'r DU i hawlio budd-daliadau ac, mewn gwirionedd, ychydig a wyddant am y gyfundrefn lloches cyn cyrraedd yma[3].

Nid oes gan y mwyafrif mawr o geiswyr lloches a gaiff eu cais wedi'i wrthod hawl i unrhyw ffynhonnell incwm gyfreithlon. Maent yn hollol anghenus ac yn ddibynnol ar elusen cyfeillion, teulu neu grwpiau cymunedol. Mae nifer bychan o'r ceiswyr lloches a wrthodir yn gymwys i dderbyn cymorth yn ôl Adran 4 Deddf Lloches a Mewnfudo 1999. Mae hyn yn darparu llety a naill ai prydau bwyd neu dalebau - dim arian parod.

Mae llawer o'r ceiswyr lloches a gafodd eu gwrthod yn darganfod na fedrant ddychwelyd i'w cartref oherwydd nad oes llwybr dychwelyd diogel neu oherwydd y byddai eu bywydau mewn perygl. Mewn rhai achosion, derbynnir hyn gan y llywodraeth. Mae ceiswyr lloches eraill a gafodd eu cais wedi ei wrthod yn rhy ofnus i ddychwelyd oherwydd y posibilrwydd o erledigaeth neu am fod eu gwlad yng nghanol terfysg neu ryfel.

Mae nifer o gyrff a grwpiau yng Nghymru ac ar draws y DU yn gofidio'n fawr am ansawdd y penderfyniadau a wneir o ran ceisiadau am loches ac yn credu fod hyn yn arwain at geisiadau'n cael eu gwrthod yn annheg.

"Gall Cymru ymfalchïo mewn bod yn wlad gynhwysol, amlddiwylliannol ac aml-ffydd ... mae rhai a geisiodd amddiffynfa yma wedi setlo ac wedi dod yn rhan bwysig o'n cymdeithas."

Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan AC

Wythnos Ffoaduriaid 2006

Cefnogir y maniffesto hwn gan:

Amnest Rhyngwladol; Asylum Justice; Gr_p Cymorth Ceiswyr Lloches Caerdydd; Plant yng Nghymru; Church Action on Poverty; Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol; Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru; Displaced People in Action; Gr_p Cymorth Ffoaduriaid Casnewydd a'r Cylch; Oxfam; Llais Ffoaduriaid Cymru; Save the Children, Cymru; Gr_p Cymorth Ceiswyr Lloches Bae Abertawe; Cyngor Ffoaduriaid Cymru.

---

[1] *Dogfen ymgynghorol Cynhwysiant Ffoaduriaid Llywodraeth Cynulliad Cymru, Tachwedd 2006*

[2] *Astudiaeth ar y cyd gan OXFAM a'r Cyngor Ffoaduriaid, Gorffennaf 2002*

[3] *Astudiaeth Ymchwil 243 Y Swyddfa Gartref - Understanding the decision-making of asylum seekers, Gorffennaf 2002*

[4] *Defnyddir y term ceisydd lloches y gwrthodwyd ei gais ar gyfer pobl a gafodd eu cais am loches, ynghyd ag unrhyw apeliadau, wedi ei wrthod yn derfynol.*

pledge 1

croesawu pobl sy'n ceisio amddiffynfa rhag erledigaeth

Daw ffoaduriaid a cheiswyr lloches i Gymru i chwilio am le diogel rhag erledigaeth. Adlewyrchir hyn yng ngwledydd cartref y nifer mwyaf o geiswyr lloches yng Nghymru - Pacistan, Somalia, Irac, Iran a Thwrci - pob un ohonynt yn wledydd sydd â hanes gwael o ran hawliau dynol neu leoedd lle mae rhyfel a therfysg parhaol[5].

Mae Confensiwn Ffoaduriaid 1951 yn sicrhau bod gan bawb hawl i wneud cais am loches ac mae wedi achub miliynau o fywydau. Mae'r rhan fwyaf o ffoaduriaid yn ffoi i wledydd cyfagos, rhai o'r gwledydd tlotaf yn y byd. Mae'r DU yn gartref i 3% yn unig o ffoaduriaid y byd[6]. Rhannwn gyfrifoldeb byd-eang i amddiffyn ffoaduriaid.

Mae Cymru'n elwa'n fawr o'r cyfraniad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ei wneud i'n cymdeithas. Os gallwn ni eu croesawu i mewn i'n cymdeithas a gwneud iddynt deimlo'n rhan ohoni, gall ffoaduriaid fuddsoddi'n haws yn ei dyfodol gan wneud lles i bawb.

Yn anffodus, mae yna gamddealltwriaeth sylfaenol ar led yngl_n â ffoaduriaid ac mae hyn yn arwain at elyniaeth a gwahaniaethu. Gall hyn gael ei adlewyrchu mewn unigrwydd, darpariaeth gwasanaethau gwael, tensiwn o fewn cymunedau a hyd yn oed ymosodiadau corfforol a geiriol.

Fel arweinwyr yn ein cymunedau, mae gan wleidyddion gyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth fanwl gywir ac i herio chwedleuon yn ymwneud â ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Rydym ni'n ffodus yng Nghymru fod gennym arweinyddiaeth gref yn y maes hwn.

Wrth arwyddo ein cerdyn addewid, mae ymgeiswyr yn ymrwymo wrth ymgyrchu cyfrifol cyn, yn ystod ac ar ôl Etholiadau'r Cynulliad gan herio'n gyhoeddus y chwedleuon a hyrwyddo gwell dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â ffoaduriaid a lloches.

"Mae i Gymru draddodiad balch o fod yn wlad sydd yn estyn croeso cynnes. Mae'r ffoaduriaid yn talu'r gymwynas yn ôl drwy ddod â'u profiadau a'u hegni i gyfoethogi ein bywyd cenedlaethol."

Mike German AC

Wythnos Ffoaduriaid 2006

[6] *Cyngor Ffoaduriaid Prydain http://www.refugeecouncil.org.uk/practice/basics/facts.htm#factthree*

pledge 2

grymuso ffoaduriaid i ailadeiladu eu bywydau

Er bod rhai ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn dod o wledydd lle siaredir Saesneg, mae cyfran sylweddol yn cyrraedd yng Nghymru heb sgiliau iaith yn y Saesneg na'r Gymraeg. Mae methu â chyfathrebu – boed yn y siop leol neu gyda darparwyr gwasanaethau – yn amlwg yn golygu anawsterau amlwg i'r unigolyn ond hefyd yn ei gwneud hi'n anodd o ran integreiddio ac adeiladu ymddiriedaeth ar draws cymunedau.

Mae dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) nid yn unig yn adeiladu sgiliau iaith, ond hefyd maent yn ffordd i ddatblygu gwell dealltwriaeth o fywyd yn y DU.

Heb nawdd Llywodraeth y Cynulliad, ni allai ceiswyr lloches fforddio mynd i ddosbarthiadau iaith. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r ddarpariaeth ESOL yn ddigonol i gwrdd â'r galw ac mae'n ymdrechu'n galed i ymateb i'r amrywiol anghenion ieithyddol. Mae angen cynyddu darpariaeth ESOL, a dosbarthu gwybodaeth a chyngor am gyrsiau priodol.

Mae mynediad at addysg a hyfforddiant yn agwedd allweddol o alluogi pobl i ailadeiladu eu bywyd. Yng Nghymru, mae gan bobl rhwng 16-18 oed sy'n ceisio lloches hawl haeddiannol i fynediad at addysg a hyfforddiant yn union fel pobl ifanc eraill[7]. Fodd bynnag, mae camddealltwriaeth ar lefel swyddogol yn golygu fod llawer ohonynt yn cael eu troi i ffwrdd.

Dylai Llywodraeth newydd y Cynulliad roi mesurau newydd yn eu lle i wneud pobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau a gofalu bod sefydliadau sy'n darparu addysg bellach a hyfforddiant yn cyflawni eu cyfrifoldebau.

Wrth arwyddo ein cerdyn addewid, bydd ymgeiswyr yn:

- ***Cefnogi ariannu parhaol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dosbarthiadau ESOL i geiswyr lloches ynghyd â darpariaeth ychwanegol i gwrdd â'r galw;***
- ***Ymrwymo i orfodi cyfarwyddyd presennol sy'n galluogi ceiswyr lloches 16-18 oed i gael mynediad at addysg bellach a hyfforddiant ar yr un tir gwastad â phobl ifanc eraill***

[7] *National Planning and Funding System (NPFS): A Guide to Eligibility for Funding, Ionawr 06*

pledge 3

mynediad teg a chyfartal at wasanaethau

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ymgorffori'r egwyddor y dylai pawb gael mynediad at ofal iechyd yn y DU, am ddim yn y man darparu, beth bynnag fo eu statws economaidd.

Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2004 cyflwynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru reoliadau[8] i gyflwyno ffioedd am ofal iechyd eilaidd ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd. Mae hyn er gwaethaf y ffaith eu bod yn hollol anghenus heb yr un modd i dalu am eu gofal meddygol eu hunain.

Yn ôl y rheoliadau hyn, fe godir ffioedd am bob math o ofal eilaidd, ac eithrio triniaeth a ddarperir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Bydd rhaid talu am driniaeth "frys" mewn unrhyw ysbyty arall. Lle caiff triniaeth ei hystyried yn "angenrheidiol ar frys" ni ddisgwylir i'r Ymddiriedolaeth wirio a all y claf fforddio talu cyn iddynt ddarparu triniaeth, ond mae gofyn iddynt geisio adfer y costau wedi hynny. Mae'r gyfundrefn ffïoedd yn cwmpasu bron pob angen iechyd, gan gynnwys gofal mamolaeth.

Nid oes yr un claf yn rhy fregus i osgoi gorfod talu. Mae plant yn gorfod talu, mae pobl sydd â thrafferthion iechyd meddwl aciwt neu anawsterau dysgu yn gorfod talu ac mae pobl h_n sydd yn dioddef gan ddementia yn gorfod talu.

Mae'r rheoliadau hyn yn annynol ac maent yn achosi lefelau annerbyniol o ddioddefaint a chaledi ymysg rhai o bobl mwyaf diamddiffyn cymdeithas.

Wrth arwyddo'r cardiau addewid, mae ymgeiswyr yn ymrwymo i ryddhau ceiswyr lloches a wrthodwyd rhag gorfod talu am driniaeth gan Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

[8] *Rheoliadau GIG (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Cymru) 2004*

pledge 4

amddiffyn plant a phobl ifanc

Although immigration policy is a non-devolved area, the provision of the majority of services that asylum-seeker and refugee children in Wales receive is the responsibility of the Welsh Assembly Government, Local Authorities and other public bodies in Wales.

Asylum seeker and refugee children are children first and foremost. Children arrive in Wales with their families and also as separated or unaccompanied children. Children newly arrived in the country are among the most vulnerable groups of children in the Wales.

By virtue of their journeys to Wales and also the conditions in their countries of origin such as conflict, extreme poverty and instability asylum seeker and refugee children may have additional significant physical and emotional health needs. Many asylum seeker and refugee children have had long periods of disrupted schooling, presenting specific challenges on their arrival in Wales.

The needs of separated children in Wales is particularly great, and specialist advocacy provision for this group of children is vital to ensure that they are properly safeguarded within the context of the asylum determination process and that their support and care needs are met by all responsible agencies.

In 2002 the UN Committee on the Rights of the Child recommended that the appointment of guardians to unaccompanied asylum-seeking and refugee children and a review of current independent advocacy services be considered.

In signing our pledge cards, candidates commit to ensure the provision and availability of accessible and well-funded independent advocacy support for separated children seeking asylum in Wales.

"Mae mewnfudo wedi cyfoethogi cymdeithas Cymru ac wedi ehangu gorwelion pobl Prydain i weddill y byd. Mae Cymru wedi elwa yn economaidd ac yn ddiwylliannol. I gynorthwyo ffoaduriaid sy'n dod i Gymru, rhaid i ni fynd i'r afael â thlodi ac adeiladu cysylltiadau cymunedol cryf."

Nick Bourne AC

Wythnos Ffoaduriaid 2006

pledge 5

datblygu sylfaen dystiolaeth gref

Ychydig o ymchwil sydd wedi ei wneud i anghenion a phrofiadau ceiswyr lloches a ffoaduriaid, ac mae yna brinder gwybodaeth dybryd am bobl sy'n anghenus. Mae hefyd ddiffyg data sylfaenol, yn cynnwys nifer a phroffil ffoaduriaid.

Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn i gyrff statudol a sefydliadau cymdeithas sifil gynllunio gwasanaethau'n effeithiol.

Mae hefyd yn ei gwneud hi'n anodd gwerthuso effeithiolrwydd polisïau. Mae gwaith eisoes yn cael ei wneud mewn nifer o feysydd i wneud gwahaniaeth positif. Heb ddealltwriaeth gywir o'r effaith y mae'r mesurau hyn yn ei gael ar fywydau pobl dros gyfnod o amser, anodd fydd pwyso a mesur eu llwyddiant a dysgu gwersi ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Mewn nifer o achosion, mae gwybodaeth ansoddol a meintiol ar gael o wahanol ffynonellau. Dylai Llywodraeth y Cynulliad arwain y ffordd wrth goladu a dadansoddi'r wybodaeth hon.

Mae hi'r un mor bwysig fod yr wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd. Mae camddealltwriaeth ynghylch ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn porthi gelyniaeth. Mae'r rhan fwyaf o bobl am wybod mwy ac yn cael gwybodaeth o ffynonellau dibynadwy[9]. Dylai rhoi gwybodaeth gadarnhaol, wedi ei hymchwilio'n drylwyr, ar gael i'r cyhoedd leihau'r chwedleuon ynghyd â'r elyniaeth a'r camwahaniaethu a ddaw yn eu sgil.

Wrth arwyddo ein cardiau addewid, mae ymgeiswyr yn ymrwymo i ddatblygu mecanweithiau ar gyfer casglu a dosbarthu gwybodaeth feintiol ac ansoddol gadarn ar broffil, anghenion a phrofiadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru.

"Mae gennym ni yng Nghymru draddodiad hir o groesawu ffoaduriaid o bob ban o'r byd. Pobl sydd wedi dod yn rhan werthfawr o'n cymuned."

Ieuan Wyn Jones AC

Wythnos Ffoaduriaid 2006

[9] Asylum: understanding public attitudes, Miranda Lewis, IPPR 2005